

Swyddfa  
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent  
Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2018-  
19

## Cynnwys

1. Rhagair
2. Cyflawniadau
3. Ein Strategaeth Gymraeg ar y Cyd
4. Cwynion
5. Swyddi a hysbysebwyd yn 2018-19
6. Hyfforddiant
7. Sgiliau Cyflogaion yn y Gymraeg
8. Monitro a Goruchwyllo Cydymffurfiaeth â'r Safonau
9. Cydymffurfiaeth â Safonau Darparu Gwasanaeth
10. Cydymffurfiaeth â Safonau Llundain Polisi
11. Cydymffurfiaeth â Safonau Gweithredol
12. Heriau
13. Cysylltu â ni
14. Atodiad: Diffiniadau Lluoedd Heddlu Cymru o Lefel Gymraeg


## 1 Rhagair

Rwyf yn falch o gyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol Monitro Safonau'r Gymraeg hwn, sy'n dangos y cynnydd a wnaed gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wrth i ni barhau i ddatblygu fel sefydliad sy'n croesawu ac yn adlewyrchu diwylliant Cymraeg ffyniannus Gwent.

Mae darparu gwasanaeth plismona dwyieithog i holl ddinasyddion Gwent yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent a Heddlu Gwent. Ers i Safonau'r Gymraeg gael eu cyhoeddi yn 2017 ar gyfer pob Comisiynydd Heddlu a Throsedd a gwasanaeth Heddlu yng Nghymru, rydym wedi gweithio gyda'n gilydd yn agos yng Ngwent i wneud newidiadau sylweddol i nifer o'n gweithdrefnau a phrosesau busnes. Bydd y newidiadau hyn yn ein helpu ni i sicrhau bod unrhyw un sydd am gyfathrebu â ni yn Gymraeg yn gallu gwneud hynny.

Nid yw'r gwaith o ddarparu gwasanaeth dwyieithog heb ei heriau. Er mwyn gwella ein galluedd o ran y Gymraeg mae'n rhaid i ni weithio mewn partneriaeth gyda chymuned Gwent gyfan, gan gynnwys cenedlaethau'r dyfodol mewn addysg cyfrwng Cymraeg ac oedolion sy'n dysgu Cymraeg, a sefydliadau Cymraeg lleol a chenedlaethol. Gydag amser, rwy'n obeithiol y bydd y gwasanaeth Heddlu yng Ngwent yn dod yn yrfa naturiol o ddewis i bobl sy'n ceisio gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg.

Gobeithio y gwnewch chi fwynhau darllen am y cynnydd mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi ei wneud hyd yn hyn. Hoffwn estyn gwahoddiad i chi gysylltu os oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch sut y gallwn barhau i wella.



Jeff Cuthbert, B.Sc., MCIPD

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent

## **2 Cyflawniadau**

### **Adolygiad o arwyddion a llenyddiaeth Gymraeg yn adeiladau'r Heddlu**

Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yw perchennog eiddo'r Heddlu yng Ngwent. Rhwng mis Mai a mis Tachwedd 2018 ymwelwyd â phob gorsaf ac adeilad heddlu sy'n cael eu defnyddio gan Heddlu Gwent gan staff o'r tîm Rheoli Ystadau, i sicrhau bod ein holl arwyddion, posteri ac arddangosfeydd gwybodaeth i'r cyhoedd yn ddwyieithog. Cafodd unrhyw wybodaeth nad oedd yn cydymffurfio ei thynnu i lawr neu ei chyfnewid am fersiwn dwyieithog.

### **Polisi Defnyddio'r Gymraeg yn Fewnol**

Mae polisi i hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg o fewn busnes Heddlu Gwent a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi cael ei gyhoeddi ar fewnwyd Heddlu Gwent, sy'n cael ei rhannu gan y ddau sefydliad, er mwyn i'r holl gydweithwyr fod yn ymwybodol bod defnyddio'r Gymraeg yn cael ei annog yn rhagweithiol.

### **Rhwydwaith Siaradwyr a Dysgwyr Cymraeg Heddlu Gwent**

Mae rhwydwaith o siaradwyr a dysgwyr Cymraeg wedi cael ei greu. Mae aelodau'r rhwydwaith yn gwirfoddoli i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg i helpu Heddlu Gwent a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd i ddarparu gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd pan fydd prinder sgiliau Cymraeg mewn adran benodol o'r sefydliad. Mae aelodau'r rhwydwaith yn cynorthwyo'r gwaith o hybu cyfleoedd recriwtio i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg hefyd. Mae hyn yn helpu i godi ymwybyddiaeth o sut rydym yn defnyddio'r Gymraeg yn gynyddol yn y gweithle ac yn datblygu gwasanaeth plismona dwyieithog.

### **Monitro Cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg**

Rydym wedi cynnal arolwg llawn o sut mae Safonau'r Gymraeg yn cael eu rhoi ar waith a'u monitro ar draws holl feysydd busnes Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. O ganlyniad, bydd dull newydd a chynhwysfawr o gofnodi cydymffurfiaeth a gwella gwasanaeth yn cael ei gyflwyno yn ystod 2019/20, pan fydd pob maes busnes yn hysbysu am gydymffurfiaeth yn defnyddio'r dull newydd hwn o gynlluniau gweithredu a dangosyddion perfformiad lleol.

### 3 Ein Strategaeth Gymraeg ar y Cyd

Mae Heddlu Gwent a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi cyhoeddi Strategaeth Gymraeg ar y Cyd ar gyfer y cyfnod 2017 - 2020. Mae'r ddogfen hon yn dangos yn glir yr addewid mae'r ddau sefydliad yn ei gwneud i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg Gwent i sicrhau mai darparu gwasanaethau o ansawdd cyfartal yn Gymraeg a Saesneg yw ein nod terfynol.

Pedwar amcan allweddol y Strategaeth ar y cyd yw:

- Ymgysylltu'n effeithiol â siaradwyr Cymraeg yn ein cymunedau er mwyn llywio'r gwasanaeth rydym yn ei ddarparu
- Hybu ein gwasanaethau yn y Gymraeg i'r cyhoedd
- Cynyddu'r gyfran o siaradwyr Cymraeg rydym yn ei chyflogi yn y ddau sefydliad
- Creu diwylliant yn y gweithle sy'n cydnabod gwerth cyflenwi gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae'r Strategaeth lawn wedi cael ei chyhoeddi ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd <http://www.gwent.pcc.police.uk/cy/tryloywder/cyhoeddiadau/strategaeth-y-gymraeg/>. Defnyddir y Strategaeth i lywio ein hagwedd tuag at gyflawni gofynion y Safonau.

Er mwyn galluogi cydberthnasau gwaith agosach a manteisio i'r eithaf ar arbedion, mae Heddlu Gwent a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn rhannu swyddi'r Swyddog Polisi'r Gymraeg a'r Cyfieithydd Cymraeg.

## 4 Cwynion

Yn ystod cyfnod yr adroddiad - 1 Ebrill 2018 i 31 Mawrth 2019 - ni dderbyniodd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd unrhyw gwynion am ddiffyg gwasanaeth Cymraeg. Mae hyn yn gyson â chyfnod adroddiad 2018/19.

Rydym yn annog y cyhoedd i ddweud wrthym os ydynt yn meddwl nad ydym yn bodloni ein rhwymedigaethau mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg er mwyn i ni allu parhau i wella ein darpariaeth gwasanaeth a chyfathrebu'n effeithiol.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi cyhoeddi gweithdrefn gwyno ar gyfer cwynion sy'n ymwneud â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

<http://www.gwent.pcc.police.uk/cy/tryloywder/cyhoeddiadau/gweithdrefn-ar-gyfer-cwynion-yn-ymwneud-a-chydymffurfiaeth-a-safonau-gymraeg/>.

## **5 Swyddi a Hysbysebwyd yn 2018/19**

Yn ystod cyfnod yr adroddiad - 1 Ebrill 2018 i 31 Mawrth 2019 hysbysebwyd 11 swydd yn dilyn adolygu strwythur Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd:

Hysbyswyd 0 swyddi (0%) yn nodi bod y Gymraeg yn hanfodol.

Hysbyswyd 0 swyddi (0%) yn nodi bod y Gymraeg yn ddymunol

Cyfanswm y swyddi a hysbysebwyd mewn perthynas â sgiliau Cymraeg oedd 0.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cydnabod bod hyn yn ddiffyg ar ran y sefydliad. O ganlyniad i hyn, mae'r Prif Weithredwr wedi cytuno y bydd pob swydd a hysbysebir yn y dyfodol ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn nodi fel bod y Gymraeg yn ddymunol fel isafswm. Mae hyn hefyd yn cynnwys proses recriwtio'r Prif Gwnstabl, y mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gyfrifol amdano.

## 6 Hyfforddiant

Mae Heddlu Gwent a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn darparu cwrs hyfforddiant gorfodol Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a Sgiliau Lefel 1 i bob cyflogai. Darperir yr hyfforddiant gan Swyddog Polisi'r Gymraeg.

Rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019, derbyniodd 17 o 19 aelod staff (89%) Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yr hyfforddiant gorfodol. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi derbyn yr hyfforddiant hefyd. Oherwydd amseru o ran derbyn staff newydd i'r sefydliad a'r galw mawr am lefydd hyfforddiant, ni allai gweddill y staff gymryd rhan yn y sesiynau cyn diwedd cyfnod yr adroddiad.

Bydd yr hyfforddiant gorfodol hwn yn parhau yn 2019/20 nes bydd pob cyflogai yn y ddau sefydliad wedi mynychu.

Mae hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a Sgiliau Lefel 1 yn cael ei gorffori yn y rhaglen hyfforddiant sefydlu ar gyfer staff newydd.

Mae cyfleoedd ar gael i gyflogeion gofrestru ar gyrsiau Cymraeg i Oedolion mewnol a ddarperir gan Goleg Gwent. Ble y bo'n bosibl, mae cyflogeion yn mynychu yn ystod amser gwaith. Yn ystod cyfnod yr adroddiad, nid oedd unrhyw ddysgwyr o Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar y cyrsiau a ddarparwyd.



## 7 Sgiliau Cyflogeion yn y Gymraeg

Isod mae tabl yn dangos lefel y sgiliau Cymraeg a gofnodir ar ein system Adnoddau Dynol. Rydym yn falch o fod wedi gallu cynyddu lefel sylfaenol y sgiliau Cymraeg sydd ar gael ar draws y sefydliad.

<b>Sgiliau Cyflogeion yn y Gymraeg</b>			
<b>Lefel</b>	<b>Nifer Cyflogeion*</b>		
	<b>2016/17</b>	<b>2017/18</b>	<b>2018/19</b>
1	5	4	15
2	1	2	2
3	0	0	0
4	0	0	1
5	1	1	0
Cyfanswm	7	7	18
Cyfanswm Cyflogeion	17	17	19

\*Cyflogeion heblaw am y Comisiynydd Heddlu a Throsedd

## 8 Monitro a Goruchwylio Cydymffurfiaeth â'r Safonau

Cyfrifoldeb y Prif Weithredwr yw monitro a goruchwylio cydymffurfiaeth Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd â Safonau'r Gymraeg. Mae craffu mewnol yn digwydd mewn cyfarfodydd rheoli i alluogi'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd i oruchwylio cydymffurfiaeth.

Mae'n ddyletswydd ar y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i fonitro a chraffu ar gydymffurfiaeth Heddlu Gwent â Safonau'r Gymraeg, a osodir ar y Prif Gwnstabl, hefyd. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cymryd rhan yng nghyfarfodydd Y Gymraeg Heddlu Gwent a chyfarfod y Bwrdd Pobl ac Amrywiaeth i alluogi'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd i fonitro cynnydd a chydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fusnes plismona.

Mae Bwrdd Craffu a Pherfformiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar gyfer y cyhoedd yn derbyn adroddiadau blynyddol ynghylch cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Heddlu Gwent. Caiff y rhain eu cyhoeddi'n allanol ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd fel rhan o'n trefniadau llywodraethu mewnol. Yn ogystal, mae Panel Heddlu a Throsedd Gwent yn derbyn adroddiad Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd fel sicrwydd o'n cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.

Bydd ein fframwaith newydd ar gyfer monitro Safonau'r Gymraeg, a luniwyd yn fewnol, yn cael ei gyflwyno yn 2019/20. Mae'r fframwaith yn cynnwys tîm gweithredu pwrpasol ochr yn ochr â dangosyddion perfformiad lleol, a bydd yn helpu i ddangos tystiolaeth glir o sut mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn bodloni gofynion Safonau'r Gymraeg, yn ogystal ag unrhyw feysydd i'w gwella.

## 9 Cydymffurfiaeth â Safonau Darparu Gwasanaeth

### a) Cyfathrebu â'r Cyhoedd

Mae canllawiau ar gyfer staff wedi cael eu cyhoeddi ar fewnwyd Heddlu Gwent "Y Bît/The Beat". Mae'r canllawiau hyn yn esbonio gofynion y Safonau Darparu Gwasanaeth ar gyfer y ddau sefydliad yn glir ac yn syml. Mae staff yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'r canllawiau a sut i'w defnyddio yn ystod y sesiwn hyfforddiant gorfodol Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a Sgiliau Lefel 1.

### B) Gwefannau a'r Cyfryngau Cymdeithasol

Mae gwefan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cynnwys rhagdudalen i annog siaradwyr Cymraeg i ddewis iaith cyn mynd at dudalennau eraill y wefan. Rydym wedi gwella ein presenoldeb cyfrwng Cymraeg ar draws ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol hefyd er mwyn ymgysylltu â chymunedau'n well.

Ym mis Ionawr gwnaethom lansio ein cylchlythyr ar-lein wythnosol, sydd ar gael yn Gymraeg neu Saesneg, yn dibynnu ar ddewis iaith y sawl sy'n tanysgrifio. Hyd at ddiwedd mis Mawrth, roedd pump o bobl wedi tanysgrifio i'r fersiwn Gymraeg. Rydym yn parhau i ddarparu'r cylchlythyr ar-lein ar gyfer ein holl gymunedau – mae gwybodaeth bellach ar gael ar ein gwefan ar <http://www.gwent.pcc.police.uk/cy/gwrando-arnoch-chi/cylchlythyr/>.

### c) Grantiau

Mae'r holl wybodaeth a gyhoeddir sy'n ymwneud â chyfluoedd am gyllid yn Gymraeg a Saesneg. Os derbynnir cais yn Gymraeg, byddwn yn gohebu gyda'r ymgeisydd yn Gymraeg ac yn darparu gwasanaeth cyfieithu mewn unrhyw gyfarfodydd cysylltiedig.

Yn ystod blwyddyn yr adroddiad, ni wnaethom dderbyn unrhyw geisiadau am gyllid yn Gymraeg.

### d) Caffael

Nid oes unrhyw geisiadau neu gcontractau wedi cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac ni dderbyniwyd unrhyw rai yn Gymraeg yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn.

O ran contractau perthnasol (lle mae'r testun yn awgrymu y dylent fod yn Gymraeg) mae dogfennau tendro yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg. Mae'r ddogfen tendro yn nodi "Mae'r Comisiynydd yn croesawu ymatebion tendro yn Gymraeg" ac mae Rhestr Wirio'r Gymraeg wedi cael ei hymgorffori yn y broses dendro i sicrhau bod sylw dyledus yn cael ei dalu i'r Gymraeg yn ystod pob cam. Mae mynediad at wasanaethau cyfieithu proffesiynol yn sicrhau bod cynnwys cyflwyniadau yn y Gymraeg yn cael ei adlewyrchu'n gywir, a bydd y broses werthuso'n rhedeg yn gyfochrog â'r broses werthuso ar gyfer cyflwyniadau yn Saesneg (os yn berthnasol). Bydd yr un dyddiad cau yn berthnasol i gyflwyniadau yn Gymraeg a Saesneg a bydd gwasanaethau cyfieithu ar y pryd yn cael eu cynnig a'u trefnu ar gyfer contractau perthnasol os bydd sefydliad yn dymuno cael cyfweliad yn Gymraeg.

Mae pob tendr yn cael ei hysbysebu yn Gymraeg ac yn Saesneg.

## 10 Cydymffurfiaeth â Safonau Llundain Polisi

Rydym wedi cydymffurfio â'n Safonau Llundain Polisi trwy ddiwygio'r broses a ddefnyddiwn i asesu'r effaith ar gydraddoldeb. Mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn rhan orfodol o'n gweithdrefn llunio polisi ac maent yn arwain ein llunwyr polisi a'n pobl sy'n gwneud penderfyniadau drwy'r broses o ystyried effeithiau negyddol neu gadarnhaol ar bobl sy'n rhannu Nodweddion Gwarchoddedig fel y diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Er nad yw'r Gymraeg yn Nodwedd Warchoddedig dan Adran 4 Deddf Cydraddoldeb 2010, rydym wedi diwygio ein templed Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn awr i gynnwys nifer o gwestiynau sy'n golygu y bydd unrhyw effaith ar y ffordd rydym yn trin y Gymraeg mewn perthynas â'r Saesneg, neu gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, yn cael eu nodi. Mae'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn amlinellu sut mae'r awdur yn bwriadu lliniaru unrhyw effaith negyddol a nodwyd, ac unrhyw newidiadau angenrheidiol hefyd. Mae cymorth ar gael gan Swyddog Polisi'r Gymraeg i unrhyw gydweithiwr sy'n cwblhau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ac fel mater o drefn ymgynghorir â Swyddog Polisi'r Gymraeg ynghylch pob polisi newydd a diwygiedig.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi cyhoeddi polisi ar ddyfarnu grantiau sy'n amlinellu sut byddwn yn ystyried y Gymraeg yn ein penderfyniadau cyllido. Mae hwn ar gael ar ein gwefan <http://www.gwent.pcc.police.uk/cy/tryloywder/cyhoeddiadau/polisi-a-gweithdrefn-arian-grant/>.

## **11 Cydymffurfiaeth â Safonau Gweithredol**

### **a) Cymorth i Staff**

Cyhoeddir canllawiau Safonau'r Gymraeg cynhwysfawr i staff ar fewnwyd Heddlu Gwent "Y Bît/The Beat" ar y dudalen "Cymraeg". Mae'r dudalen yn cynnwys cymorth ac adnoddau i staff sydd am ymarfer eu Cymraeg neu sy'n ystyried addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant hefyd.

Darperir templedi Cymraeg ar gyfer ymatebion allan o'r swyddfa a llofnodion personol, ynghyd â bathodynau rhithwir y gall personél eu hychwanegu at eu negeseuon e-bost i ddangos eu bod naill ai'n dysgu neu'n siarad Cymraeg. Mae pob siaradwr a dysgwr Cymraeg hysbys yn Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi cael bathodyn neu laniard priodol i'w wisgo.

### **b) Sgiliau Cymraeg y Gweithlu**

Bydd pob hysbyseb swydd yn y dyfodol yn nodi bod y Gymraeg yn ddymunol fel mater o drefn, oni bai bod swydd yn cael ei hasesu i fod yn un lle mae'r Gymraeg yn hanfodol neu'n gofyn bod yr ymgeisydd llwyddiannus yn mynd ati i gael y sgiliau perthnasol. Bydd y broses asesu newidiadau i ofynion iaith yn cael cymorth gan y Tîm Recriwtio yn Adran Gwasanaethau Pobl Heddlu Gwent.

Yn allanol, caiff swyddi eu hysbysebu yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg a chyhoeddir fersiynau Cymraeg o wybodaeth yn ymwneud â'r swydd honno, yn ogystal â ffurflenni cais. Mae pob cais am swydd newydd yn gofyn i ymgeiswyr nodi lefel eu gallu yn y Gymraeg, a ble y bo angen, a hoffent gwblhau'r broses recriwtio yn Gymraeg.

### **c) Arwyddion**

Mae pob arwydd newydd neu arwydd sy'n cael ei gyfnewid yn cael ei gynhyrchu'n ddwyieithog yn awr gyda'r Gymraeg mewn safle lle y mae'n debygol o gael ei darllen gyntaf.

## **12 Heriau**

Nid oes gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd unrhyw heriau gerbron Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â Safonau penodol.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ynglŷn ag unrhyw arfer da a nodir neu heriau sy'n dod i'r amlwg wrth i ni barhau i wella'r ddarpariaeth o wasanaethau dwyieithog i drigolion Gwent.

### 13 Cysylltu â Ni

Am wybodaeth bellach ynghylch sut mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, neu i roi adborth ar sut gall Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ymgysylltu'n fwy effeithiol â siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn y cymunedau mae'n eu gwasanaethu, cysylltwch â'n harweinydd polisi sy'n gyfrifol am y Gymraeg, Caroline Hawkins:

trwy e-bost: [Caroline.Hawkins@gwent.pnn.police](mailto:Caroline.Hawkins@gwent.pnn.police)

ar y ffôn: 01633 642200

ar Twitter: @gwentpcc

ar Facebook: <https://www.facebook.com/gwentpcc/facebook/>

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg - byddwn yn ymateb yn gyfartal i geisiadau yn y ddwy iaith a byddwn yn ymateb yn eich iaith ddewisol heb oedi.

## 14. Atodiad:

### Diffiniadau Lluoedd Heddlu Cymru o Lefel Cymraeg (sgiliau llafar yn unig)

**Lefel 1:** Gallu dweud enwau lleoedd, enwau personol, gallu cyfarch yn briodol yn bersonol neu ar y ffon, gallu dechrau a therfynu cyfarfodydd yn ddwyieithog.

**Lefel 2:** Gallu deall hanfod sgwrs a chyfleu gwybodaeth syml, gallu ymateb i geisiadau syml, gallu deall ceisiadau am gymorth, gallu defnyddio Cymraeg i drosglwyddo galwadau ffôn, gallu cyflwyno ei hun ac eraill.

**Lefel 3:** Gallu cymryd a throsglwyddo negeseuon sy'n debygol o fod angen sylw yn ystod diwrnod gwaith, gallu sgwrsio'n rhannol yn Gymraeg ond yn troi at y Saesneg mewn trafodaethau ac i roi gwybodaeth fanwl, gallu disgrifio pobl a lleoliadau, gallu ymateb i ymholiadau cyffredinol dros y ffôn ac wyneb yn wyneb, gallu cymryd manylion neu nodiadau o wrando ar sgwrs Gymraeg.

**Lefel 4:** Gallu cyfrannu'n effeithiol mewn cyfarfodydd o fewn ei faes gwaith ei hun, gallu dadlau achos o blaid neu yn erbyn syniad, gallu sgwrsio yn Gymraeg yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd ond yn troi at y Saesneg wrth ddefnyddio terminoleg plismona neu dechnegol, gallu ymdrin ag ymholiadau'n effeithiol, gallu deall gwahanol dafodieithoedd, gallu cadeirio cyfarfod ac ymateb i gwestiynau yn Gymraeg, gallu disgrifio sefyllfa neu ddigwyddiad yn Gymraeg.

**Lefel 5:** Gallu cyfweld ag ymgeiswyr am swyddi lle mae angen gallu siarad Cymraeg ac asesu eu haddasrwydd, gallu ymdrin yn effeithiol ag ymholiadau cymhleth neu ymdrin â gwrthdaro yn Gymraeg, gallu cyfweld neu holi yn ystod ymchwiliad, gallu ymdrin ag ymholiadau cymhleth neu sensitif, cwynion a chwestiynau ymosodol yn ei faes arbenigol ei hun, gallu gwneud cyflwyniadau yn Gymraeg.